Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Partneriaeth Cwm Elai
**Martin Crescent**
**Tonyrefail**
**Porth**
**Rhondda Cynon Taff**
**CF39 8NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Partneriaeth Cwm Elai

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Partneriaeth Cwm Elai |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Angharad Spooner |
| Person â gofal | Angharad Spooner |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-5 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 2 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9:00 a 12:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg a Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r darpariaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer yr iaith Gymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ar ol cofrestriad newydd |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 30/11/2010 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 28/01/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae'r lleoliad yn cwrdd ar safle'r ysgol.<br>Mae bron pob plentyn yn siarad Saesneg fel prif iaith gartref | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **dd/p** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cryfhau llais y plentyn yn y cynllunio

A2 Sicrhau bod yr ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau llafar Cymraeg y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael a'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer dathlu amlddiwylliannaeth a Chymreictod i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu barnau'n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol wrth ddewis adnoddau a gweithgareddau cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig ac yn weithgar ac yn canolbwyntio'n dda yn ystod y sesiynau. Maent yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau pwrpasol, er enghraifft wrth benderfynu chwarae ar wahân yn hytrach nag ymuno ag amser cylch. Mae ychydig o blant yn dewis chwarae yn y tŷ bach twt yn coginio, yn lle ymuno â'r sesiwn canu.

Mae bron pob plentyn yn dangos boddhad ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn edrych ymlaen at y sesiynau. Mae ychydig iawn o blant yn ansicr wrth adael eu rhieni ond maent yn bodloni ar gysur tyner gan weithwyr allweddol wrth iddynt ymgyfarwyddo â'r drefn ddyddiol a phobl newydd. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn ymateb gyda sensitifrwydd.

Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu yn gwrtais gyda phlant eraill, ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn cydweithio ac yn rhannu adnoddau yn llwyddiannus. Maent yn dysgu sut i aros ac i gymryd eu tro ac yn dangos amynedd da. Mae ychydig o blant yn chwarae gyda'r magnet mawr deniadol gyda llawer o ddiddordeb. Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais ac yn dweud 'diolch' pan fo'n briodol. Mae llawer yn dilyn cyfarwyddiadau'n effeithiol ac yn derbyn rhesymau oddi wrth ymarferwyr yn ddi-gwestiwn. Maent yn deall i beidio rhedeg yn yr ystafell chwarae.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu gweithgareddau yn fawr ac yn cymryd rhan gyda hyder. Maent yn dilyn eu diddordebau ac yn cymryd pleser mawr gyda'r cyfleodd dychmygus i chwarae rôl. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau gweithio yn y tŷ bwyta Tseiniaidd gan ddefnyddio'r til a chymryd archebion bwyd. Maent yn mwynhau torri moron a ffa gwyrdd ffres, eu cymysgu gyda reis er mwyn paratoi pryd o fwyd i'w rannu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymfalchio yn eu gallu i arddangos eu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth o gyfleoedd. Maent yn datblygu eu medrau hunangymorth yn llwyddiannus wrth frwsio dannedd ac weithiau amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus ac yn annibynnol ond mae ychydig yn dibynnu ar gymorth oedolion i arllwys diodydd a dewis bwyd. Mae lleiafrif o blant hefyd yn dibynnu ar ymarferwyr er mwyn gwisgo cotiau i fynd i'r ardal chwarae allanol sy'n rhwystro eu hannibyniaeth.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): dd/p**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant yn unigol.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae’r ymarferwyr yn dilyn systemau a gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o’u cyfrifoldebau a thrwy arferion beunyddiol, maent yn darparu cyfleoedd eithriadol o dda i blant ddatblygu a rhagori. Mae’r ymarferwyr yn gweithredu'r holl bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn hyderus iawn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o’r plant i ddatblygu arferion craidd a fydd yn effeithio ar eu ffordd o fyw yn bwrpasol yn y dyfodol. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trwyadl o unrhyw bryderon, damweiniau a digwyddiadau. Mae hyn yn cael ei fonitro yn rheolaidd gan y person â gofal. Mae pob ymarferwr yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant a chymorth cyntaf yn syth ar ôl iddynt gychwyn y swydd. Mae hyn yn adlewyrchiad arbennig o dda o’r gofal diwyd sy’n bodoli yn y lleoliad.

Mae’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant i gymryd rhan mewn cynlluniau i hyrwyddo eu hiechyd yn llwyddiannus iawn. Maent yn darparu bwyd iach a maethlon amser byrbryd ac mae golchi dwylo a brwsio dannedd yn rhan annatod o’r arferion dyddiol. Mae cyfleoedd i’r plant helpu eu hunain yn ystod y sesiynau i’r dŵr ffres. Cynigir cyfleoedd gwerthfawr a chyson i’r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff, dawnsio a chwarae tu allan. Mae’r ymarferwyr yn cefnogi dealltwriaeth y plant o fyw’n iach yn effeithiol iawn.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cefnogaeth yn eithriadol o gyson er mwyn sicrhau bod plant yn datblygu dealltwriaeth gadarn o’u hemosiynau. Er enghraifft, mae’r gweithwyr allweddol yn holi am deimladau’r plant ac yn asesu unrhyw ymateb personol yn ystod amser cofrestru. Mae gan y lleoliad bolisiau cryf sy’n canolbwyntio ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac mae plant yn derbyn cefnogaeth strwythuredig i ddatrys eu problemau. Mae’r gweithwyr allweddol yn gweithio’n agos iawn gyda rhieni er mwyn datblygu dealltwriaeth o anghenion eu plant ac yn defnyddio strategaethau manwl a phersonol er mwyn eu datrys. Mae gan ychydig o’r ymarferwyr profiad a chymhwyster defnyddiol ar gyfer cefnogi plant er mwyn deall eu emosiyniau. Maent yn helpu nhw i reoli teimladau, gwneud ffrindiau ac ymdopi gyda sefyllfaoedd anodd yn eu bywyd. Mae plant yn elwa’n fawr iawn o’r dull hwn sy’n canolbwyntio ar ddatblygu hunanhyder, gwytnwch a dyfalbarhad.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol iawn er mwyn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae’r gweithwyr allweddol yn asesu lleferydd a chyfathrebu pob plentyn yn syth ar ôl iddynt ddechrau. Maent yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer pob plentyn ag anawsterau. Maent yn cydweithio’n ardderchog gydag asiantaethau allanol yn ôl yr angen, er enghraifft trwy dderbyn cyngor gan Dechrau Deg a gweithwyr iechyd proffesiynol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ymarferwyr yn chwarae rôl weithredol wrth ddarparu ystod o brofiadau ysgogol ar draws holl feysydd dysgu y cyfnod sylfaen. Maent yn sicrhau cydbwysedd pwrpasol rhwng gweithgareddau o dan awreiniad oedolion a rhai sy’n cael eu dewis gan blant tu fewn ac yn yr ardal allanol. Cyfoethogir y cwricwlwm yn dda gyda

defnydd gwerthfawr o ymweliadau pwrpasol,er enghraifft wrth ymweld â'r siop anifeiliaid anwes. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro yn ystyried llais y plentyn yn ddigon cryf yn y cynllunio.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r modd y mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu drwy chwarae. Mae hyn yn sicrhau bod pob un yn deall eu cyfrifoldeb o ran gweithredu'r cynlluniau yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant ar draws yr ardaloedd dysgu yn gyson. Er enghraifft, mae'r plant yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn dda ac yn ymuno â chaneuon rhif yn gyson. Mae cyfleoedd buddiol i'r plant ddidoli deunyddiau gan ddefnyddio teclyn llaw darganfod metel yn fedrus.

Mae gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda'r plant sy'n eu galluogi i ddatblygu mewn awyrgylch gofalgar a chynhaliol. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant mewn modd sensitif a chadarn ac yn defnyddio iaith bositif wrth ddelio â rhyngweithiau dyddiol. Mae'r system o rannu dyletswyddau yn golygu bod y staff yn datblygu gwybodaeth fanwl o grŵp bach o blant yn gyflym, yn dod i ddeall eu hanghenion yn dda ac yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn modelu iaith yn briodol ac yn defnyddio cynllun newydd yn addas i gyflwyno a gwella patrymau iaith y plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn manteisio ar y cyfle i annog y plant i ailadrodd ac i ymarfer geirfa ac ymadroddion Cymraeg yn drylwyr.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu gwybodaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw hybu ymwybyddiaeth y plant o arwyr Cymreig o'r ardal a dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ofalu am gywion sy'n deor o wyau, plannu bylbiau a thyfu llysiau yn yr ardal allanol. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o amlddiwylliant yn gryf drwy gymryd rhan mewn nifer o ddathliadau fel Vaisakhi, Diwali a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd.

Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ôl proffil y plentyn yn drylwyr. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o arsylwadau ac asesiadau yn effeithiol er mwyn cynllunio camau nesaf yn nysgu'r plant yn gyson. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn rhannu cynnydd y plant a'u rhieni yn rheolaidd.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae ansawdd yr amgylchedd o safon neilltuol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i blant. Mae ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu'n rhagorol er mwyn ysgogi'r plant i fod yn ddysgwyr anturus a chreadigol. Maent yn darparu ardaloedd tawel a chwarae rôl a chyfleusterau i blant ymchwilio a bod yn ddychmygus. Er enghraifft mae grwp o blant yn siarad yn frwdfrydig, ac yn llawn hwyl am y 'nadroedd lliwiog' maen nhw'n gwneud gyda pasta gwlyb. Mae'r plant yn manteisio ar amgylchedd cyfoethog iawn sy'n cynnwys adnoddau fel blwch golau lle mae'r plant

yn defnyddio 'hylif sialc' er mwyn gwneud patrymau lliwgar. Mae'r ardal tu allan yn cynnig cyfleoedd ardderchog i blant treulio amser yn yr awyr agored ar feiciau, dringo a chwarae'n gorfforol. Mae cyfleoedd arbennig ar gael er mwyn i blant arbrofi yn y gegin fwd ac i dyfu a chynaeafu llysiau i'w fwyta.

Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd er mwyn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau naturiol a diddorol ac yn lleihau defnyddio plastig. Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais cryf iawn ar ailgylchu ac yn defnyddio sbwriel yn ddychmygus er mwyn gwneud modelau ac arddangosfeydd diddorol. Mae trefniadau'r amgylchedd yn hyrwyddo archwilio a chwilfrydedd. Er enghraifft, mae'r plant yn ddangos diddordeb mawr yn defnyddio'r hen depiadur. Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd lle mae'r plant yn gallu arbrofi gyda adnoddau a chreu gweithgareddau dychmygol yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau. Un o grfyderau'r amgylchedd yw'r pwyslais ar ddatblygu'r plant i feddwl yn annibynnol ac i ddatblygu sgiliau datrys problemau.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu asesu pob risg sy'n perthyn i'r ardaloedd allanol a mewnol yn ddyddiol ac yn dilyn polisiau trwyadl ac effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio rhestrau gwirio yn llwyddiannus er mwyn atal unrhyw beryglon. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelwch yn sefydlog ac yn effeithiol iawn. Ni chaniateir mynediad i ymwelwyr oni bai bod aelod o staff yr ysgol sy'n gwirio eu hunaniaeth ac yn gofyn iddynt lofnodi'r llyfr priodol. Mae'r ymarferwyr yn cymryd cofrestr o bob plentyn sy'n cynnwys amseroedd cyrraedd a gadael. Mae niferoedd y staff fel arfer yn rhagori ar ddisgwyliadau'r rheoliadau ac o ganlyniad goruchwylir y plant yn effeithiol iawn.

Mae'r lleoliad yn lan ac yn ddeniadol tu hwnt. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid trylwyr ac yn cynnal yr archwiliad rheoli heintiau yn fisol. Mae'r person â gofal yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn brydlon. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn. Hyrwyddir annibyniaeth y plant yn hynod o effeithiol, er enghraifft drwy annog y rhan fwyaf o blant i ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynol ac mae nifer o fasnau dŵr ar lefel priodol iddynt olchi dwylo yn hawdd.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi plant i ddatblygu gwybodaeth ardderchog o'r byd a dealltwriaeth o fywydau a phrofiadau pobl wahanol. Mae'r adnoddau gwych yn rhoi cyfleoedd i'r ymarferwyr rhoi pwyslais cryf ar ddathlu amrywiaeth eang o wyliau ac arferion dros y byd. Mae thema'r mis yn dathlu agweddau o fywyd Tseiniaidd. Er enghraifft, mae'r plant yn derbyn bwyd Tseiniaidd amser byrbryd ac yn defnyddio 'chop sticks', yn peintio dreigiau ac yn gwrando ar gerddoriath o Tseina.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir a chryf ar gyfer y lleoliad a'r ymarferwyr ac yn cyfleu eu disgwyliadau yn gadarn. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar ddarparu gofal ac addysg ddwyieithog o safon uchel, sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg i'r plant. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd trylwyr o weithdrefnau hunanwerthuso i adnabod cryfderau'r lleoliad o ran safonau'r plant, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ynghyd

â’r meysydd ar gyfer gwella.  Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n dda ar anghenion y plant ac mae’r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus ac ymarferol.

Mae’r arweinwyr yn gosod blaenoriaethau clir er mwyn gwella’r ddarpariaeth er lles y plant.  Mae mewnbwn y staff yn cael ei barchu gan yr arweinwyr yn ogystal â’r plant a’u rhieni.  Mae hyn yn cyfrannu at ethos cartrefol a gweithgar lle mae’r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn barod i weithredu ar unrhyw syniadau, cyngor a chanllawiau er mwyn cynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r lleoliad yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau naturial ac yn annog y plant i'w defnyddio’n greadigol, er enghraifft wrth annog y plant i wneud anifeiliaid  fferm yn defnyddio toes.

Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i apwyntio a chefnogi staff.  Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr y cymwysterau pwrpasol i gyflawni eu swyddi ac i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol.  Mae’r arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ymarferwyr yn flynyddol, yn cofnodi eu perfformiad ac yn trafod sut i wella eu sgiliau o ran eu datblygiad parhaus. Mae’r gweithdrefnau hyn yn sicrhau gwelliannau ac yn cael effaith pwrpasol ar ddysgu a lles y plant. Mae’r ymarferwyr allweddol yn gwneud asesiadau trylwr ar iaith, dealltwriaeth a chyfathrebiad pob plentyn ar ôl iddynt gychwyn.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau da gyda’r rhieni.  Mae’r rhieni’n gwerthfawrogi’r polisi drws agored a’r cyfleoedd dyddiol i siarad gyda’r ymarferwyr wrth iddynt adael eu plant yn y lleoliad.  Mae’r ymarferwyr yn rhoi gwybod i rieni am gynnydd eu plant yn rheolaidd trwy rannu taflen wybodaeth iddynt bob hanner tymor yn ogystal â’u cyfarfod i drafod adroddiad o dan y chwe maes dysgu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o gyfleoedd i gydweithio’n agos gydag ystod o bartneriaethau gan gynnwys rhieni, yr ysgol, Dechrau’n Deg, athrawes yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.  Mae’r cysylltiadau effeithiol hyn yn cyfrannu’n fuddiol at ddatblygu medrau’r plant a chyfoethogi’r ddarpariaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2020